## Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Caiff yr Asesiad yma o'r Effaith ar y Gymuned ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion – 2018 (011/2018). Mae i'w ddarllen ochr yn ochr â'r Ddogfen Ymgynghori, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan fod yr wybodaeth ym mhob dogfen yn gysylltiedig ac mae'r themâu ynddyn nhw'n drawsbynciol.

Mae Adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion – 2018 yn cyfeirio at newidiadau a reoleiddir i ysgol, sy'n cynnwys:

- Cyflwyno neu ddileu darpariaeth AAA/ADY neu unrhyw newid yn y math o ddarpariaeth o'r fath. Dyma le mae'r ddarpariaeth mewn ysgol prif ffrwd ond mae'r disgyblion sy'n cael eu derbyn yn ychwanegol at rif derbyn yr ysgol. **Rhaid** bod y ddarpariaeth wedi'i chydnabod gan yr awdurdod lleol fel un sydd ar gyfer disgyblion ag AAA/ADY;

Dyma'r cynigion:

- Symud y Dosbarth Cynnal Dysgu Arsylwi ac Asesu yn Ysgol Gynradd Penrhiwceibr i Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon. Daw hyn i rym o Ebrill 2024.
- Trosglwyddo'r Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3-6 ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASA) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon i greu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd yn Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn, i ddod i rym o fis Ebrill 2024.
- Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu (Asesu ac Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon. Bydd y cynnig yn dod i rym o fis Ebrill 2024.
- Sefydlu dau Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg Cyfnod Cynradd yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2024.
- Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 7-11 ag ASA yn yr ysgol 3-16 oed newydd ar safle Ysgol Gynradd/Uwchradd y Ddraenen Wen, i ddod i rym o fis Medi 2024.

Bydd ymgynghoriad ar y cynigion yn cael ei gynnal rhwng 5 Mehefin a 14 Gorffennaf 2023. Mae Dogfen Ymgynghori fanwl wedi'i dosbarthu i'r holl randdeiliaid penodedig, ac mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn atodiad i'r brif ddogfen yma. Bydd copïau'n cael eu hanfon i Lywodraeth Cymru, er mwyn cydymffurfio â chanllawiau'r ymgynghoriad a'r cyhoeddiad.

**Cynnig:**

**1. Symud y Dosbarth Cynnal Dysgu Arsylwi ac Asesu yn Ysgol Gynradd Penrhiwceibr i Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon. Daw hyn i rym o Ebrill 2024.**

Mae Rhondda Cynon Taf yn cynnig adleoli ei ddosbarth Arsylwi ac Asesu o Benrhiwceibr i Abercynon. Bydd y cynnig yma'n sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, a bydd y dosbarth yn cael ei adleoli i safle gwell sydd wedi cael budd o'r rhaglen Foderneiddio a Buddsoddi Ysgolion yr 21ain Ganrif. Bydd y ddarpariaeth yn parhau i gynnwys lle i 8 o ddisgyblion rhwng 3 a 7 oed a bydd y penderfyniad i leoli disgyblion yn y Dosbarth Cynnal Dysgu'n cael ei wneud gan Baneli ADY yr Adran Mynediad a Chynhwysiant.

**2. Trosglwyddo'r Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 3-6 ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASA) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon i greu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd yn Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn, i ddod i rym o fis Ebrill 2024.**

Bydd y cynnig i symud y dosbarth yn Abercynon i Berthcelyn yn osgoi trosglwyddo disgyblion sydd ag ASA yn ddiangen, yn sicrhau dilyniant yn eu lleoliadau addysgol ac yn sicrhau bod nifer uwch o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol yn rhoi tegwch i ddisgyblion mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu fel eu bod nhw'n aros mewn un lleoliad nes iddyn nhw gael eu hadleoli i addysg uwchradd yn unol â'u cyfoedion yn y brif ffrwd. Bydd y ddarpariaeth yn parhau i gynnwys lle i 10 o ddisgyblion a bydd y penderfyniad i leoli disgyblion yn y Dosbarth Cynnal Dysgu'n cael ei wneud gan Baneli ADY yr Adran Mynediad a Chynhwysiant.

**3. Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu (Asesu ac Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon. Bydd y cynnig yn dod i rym o fis Ebrill 2024.**

Mae Rhondda Cynon Taf yn cynnig gwella darpariaeth Asesu ac Ymyrraeth y Blynyddoedd Cynnar yn y Fwrdeistref Sirol drwy greu Dosbarth Cynnal Dysgu ychwanegol i gefnogi disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol. Bydd y dosbarth yn rhoi cymorth i 8 disgybl o dan oedran ysgol statudol.

**4. Sefydlu dau Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg Cyfnod Cynradd yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2024.**

Y cynnig yw gwella'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol trwy greu Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion y dosbarth derbyn i flwyddyn 6 sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd, gan greu darpariaeth cyfrwng Cymraeg arbenigol ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 11. Bydd y dosbarthiadau yn rhoi

cymorth i 8 disgybl o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 2 a 10 disgybl ym mlynyddoedd 3 i 6.

5. **Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion ym mlynyddoedd academaidd 7 i 11 ag ASA yn yr ysgol 3-16 oed newydd ar safle Ysgol Gynradd/Uwchradd y Ddraenen Wen, i ddod i rym o fis Medi 2024.**

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion presennol o ran lleoedd, cynigir bod Rhondda Cynon Taf yn agor Dosbarth Cynnal Dysgu ychwanegol i ddisgyblion ag ASA ym mlynyddoedd 7 i 11 yn yr ysgol 3-16 oed newydd ar safle Ysgol Gynradd/Uwchradd y Ddraenen Wen. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn bodloni'r galw am ddarpariaeth ASA arbenigol yn ei gyfnod uwchradd.

**Effaith ar y Gymuned**

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynigion yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y ddogfen ymgynghori fydd yn cael ei dosbarthu'n eang; mae'r ddogfen yma'n amlinellu'r cefndir i'r cynigion yn glir a pham mae hi wedi bod yn angenrheidiol i'w cyflwyno ar yr adeg yma.

Mae creu'r darpariaethau newydd yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol. Fydd y cynigion yma ddim yn cael unrhyw effaith sylweddol ar gymunedau lleol gan y bydd mwy o ddisgyblion lleol yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth arbenigol sy'n agosach i'w cartrefi nhw. Fodd bynnag, lle cynigir ail-leoli'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu lleol presennol, cydnabyddir y bydd effaith tymor byr ar y cymunedau lleol cyfagos gan y byddan nhw'n colli eu darpariaeth arbenigol gynhwysol bresennol. Bydd y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn gwneud defnydd effeithiol o unrhyw leoedd dros ben yn yr ysgol, ac yn creu adnodd a fydd o fudd i ddisgyblion sy'n agored i niwed, yn ogystal â'u rhieni/gwarcheidwaid. Bydd y gwaith arfaethedig o sefydlu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn gwella gallu cyffredinol yr ysgolion i ddiwallu amrywiaeth o anghenion, a hynny gan y bydd rhagor o arbenigedd ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol o fewn yr ysgol.

**Effaith ar Iechyd a Lles**

Rydyn ni'n rhagweld y bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar iechyd a lles disgyblion ag ADY sylweddol sy'n mynychu darpariaeth Gymraeg gan y bydd yn gwella'r model cynhwysol cyfredol sy'n cael ei ddarparu gan y garfan beripatetig cyfrwng Cymraeg arbenigol, ac yn mynd i'r afael â'r bwlch presennol yn y ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg llawn amser. Bydd adleoli dosbarthiadau yn galluogi disgyblion i gael mynediad i adeiladau sydd wedi elwa o'r rhaglen foderneiddio a bydd creu darpariaeth Blynyddoedd Cynnar ac ASA ychwanegol yn bodloni'r galw cynyddol am ddarpariaeth arbenigol yn y meysydd angen penodol hyn yn Rhondda Cynon Taf. Ar gyfer yr ychydig ddisgyblion sy'n mynychu'r ddau Ddosbarth Cynnal Dysgu ar hyn o bryd y bwriedir adleoli i ysgolion cynnal newydd, bydd rhywfaint o darfu tymor byr. Bydd yr effaith ar ddisgyblion a'u teuluoedd yn cael ei liniaru trwy adleoli'r un staff i'r ysgolion cynnal newydd, gan ddarparu cysondeb a pharhad i gefnogi disgyblion a theuluoedd trwy'r broses bontio. Bydd staff Mynediad a Chynhwysiant Canolog hefyd

yn darparu cymorth ychwanegol i'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yr effeithir arnyn nhw yn ystod y cyfnod yma.

**'Tu allan i oriau ysgol' – Defnydd Presennol**

Bydd unrhyw wasanaethau sy'n cael eu darparu gan ysgolion i rieni, disgyblion a'r gymuned ar hyn o bryd yn aros yr un fath, er enghraifft clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol.

**Cymunedau Diogel**

Bydd yr ysgolion cynnal yn gwbl hygyrch ac yn ysgolion cymunedol gwbl integredig. Ni ragwelir unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch yn y gymuned.

**Goblygiadau o ran Trafnidiaeth a Theithio**

Mae'n ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i 'bellter cerdded' o'r ysgol honno. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, neu ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig cynradd, uwchradd neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' yn ddwy filltir i ddisgyblion o oedran addysg gynradd gorfodol a thair milltir i bob disgybl o oedran addysg uwchradd gorfodol. Os caiff disgyblion eu derbyn i Ddosbarth Cynnal Dysgu, mae'n bosibl y bydd angen iddyn nhw deithio allan i'r dalgylch.

Mae modd bwrw golwg a lawrlwytho rhagor o wybodaeth am ddarpariaeth cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor o wefan y Cyngor:

www.rctcbc.gov.uk/cludiantysgol

**Meithrin Cysylltiadau â'r Gymuned**

Mae modd i aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno cael rhagor o wybodaeth am y newidiadau arfaethedig fwrw golwg y dogfennau cynnig o dan yr adran 'Cymryd Rhan' ar wefan gorfforaethol Rhondda Cynon Taf. Anogir aelodau'r cyhoedd hefyd i roi adborth ar yr ymgynghoriad gan ddefnyddio'r profforma ar-lein (https://RCTCBC.welcomesyourfeedback.net/r9g1ao).
Gwahoddir Rhieni/Gwarcheidwaid, Cyngor Ysgol, Staff Ysgol a'r Cyrff Llywodraethu Ysgolion y mae'r newidiadau yma'n effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw i achlysur ymgynghori ble mae modd iddyn nhw drafod y cynigion gyda Swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor. Isod mae amserlen o'r achlysuron rhanddeiliaid gan gynnwys amser, dyddiad a lleoliad pob achlysur.

| Ysgol fydd yn cael ei heffeithio | Grŵp – Disgyblion/Staff/Rhieni | Amser | Dyddiad | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyngor yr Ysgol** | **13:15 – 14:00** | **12 Mehefin 2023** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon | Rhieni | 14:00 – 15:00 | | Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon |
| | Staff / Corff Llywodraethu | 16:00 – 16:45 | | |
| Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn | Cyngor yr Ysgol | 14:15 – 15:00 | 13 Mehefin 2023 | Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn |
| | Rhieni | 15:15 – 16:00 | | |
| | Staff / Corff Llywodraethu | 16:00 – 16:45 | | |
| Ysgol Gynradd Penrhiwceiber | Cyngor yr Ysgol | 14:15 – 15:00 | 14 Mehefin 2023 | Ysgol Gynradd Penrhiwceiber |
| | Rhieni | 15:15 – 16:00 | | |
| | Staff / Corff Llywodraethu | 16:00 – 16:45 | | |
| Ysgol 3 i 16 oed newydd ar safle Ysgol Gynradd/Uwchradd y Ddraenen Wen<br><br>Ysgol cyfrwng Cymraeg newydd | Cyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Heol-y-celyn | 9:15 – 10:00 | 15 Mehefin 2023 | Ysgol Gynradd Heol-y-celyn |
| | Cyngor yr Ysgol Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton | 10:15 – 11:00 | 15 Mehefin 2023 | Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton |
| | Cyngor Ysgol, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen | 11:30 – 12:15 | 15 Mehefin 2023 | Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen |
| | Cyngor Ysgol, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen | 12:30 – 13:15 | 15 Mehefin 2023 | Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen |
| | Staff/Cyrff Llywodraethu Dros Dro | 16:00 – 16:45 | 15 Mehefin 2023 | Dros Teams: Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod |
| | Rhieni | 15:15 – 16:00 | 16 Mehefin 2023 | Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen |